


Diweddariad COVID-19 Gwybodaeth Cludiant Ysgol i Rieni a Disgyblion ar gyfer Medi 2020

- Mae rhieni a gofalwyr yn dal i gael eu hannog i fynd â'u plentyn / plant eu hunain i'r ysgol lle bynnag y bo modd trwy gerdded neu feicio. Fel arall dylent ddefnyddio car preifat ond parcio i ffwrdd o safle'r ysgol ac yna cerdded y pellter sy'n weddill.
- Ni fydd unrhyw bellter cymdeithasol rhwng disgyblion ar gludiant ysgol. Fodd bynnag, bydd pellter cymdeithasol yn cael ei gynnal rhwng y gyrrwr a disgyblion ar fysiau ysgol mawr. Bydd hyn yn golygu na chaniateir i unrhyw ddisgyblion eistedd ar y seddi blaen fel y nodir mewn coch yn y diagram isod.



- Bydd gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant ysgol yn orfodol i ddisgyblion oedran uwchradd oni bai bod ganddynt eithriad. Gall methu â chadw at y rheoliad hwn arwain at ddiddymu'r cynnig o drafnidiaeth. Argymhellir ac anogir bod pob disgybl cynradd hefyd yn gwisgo gorchuddion wyneb.
- Os ydych yn bendant NAD oes angen Cludiant Ysgol ar gyfer eich plentyn ym mis Medi 2020, cysylltwch ag Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor (ITU) i'n hysbysu ar 01437 775222/01437 776363 neu school.transport@pembrokeshire.gov.uk Gwerthfawrogi yn fawr eich cymorth yn hyn o beth.
- NI ddylai disgyblion deithio os ydynt:
 - yn profi unrhyw symptomau coronafeirws. h.y. peswch newydd a pharhaus, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl
 - hunan-ynysu o ganlyniad i symptomau coronafeirws neu'n rhannu cartref gyda rhywun â symptomau.
 - yn glinigol yn hynod fregus.

Cyfarwyddiadau i ddisgyblion sy'n defnyddio cludiant ysgol:

- Bydd gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant ysgol yn orfodol i ddisgyblion oedran uwchradd oni bai bod ganddynt eithriad. Ar gyfer pob disgybl arall, argymhellir ac anogir gwneud hynny. Gweler y ddolen i ganllaw LIC ar sut i wneud mwgwd wyneb 3 haenen: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-06/how-to-make-a-3-layer-face-cover.pdf> Mae yna hefyd rai grwpiau cymunedol sy'n gwneud masgiau ar gyfer y teuluoedd hynny ar PYD. Cysylltwch ag ITU y Cyngor i gael mwy o fanylion.
- Ceisiwch osgoi cyffwrdd ag unrhyw arwynebau mewn llochesi bysiau ac o fewn y bws gymaint â phosibl.
- **Wrth aros yn yr arhosfa bysiau, dylai'r disgyblion geisio cadw pellter cymdeithasol oddi wrth eraill wrth aros yn ddiogel. Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau diogelwch eu plentyn cyn mynd ar gerbyd ac ar ôl dod oddi ar gerbyd.**
- Wrth fynd ar y bws ac oddi arno, dylai'r disgyblion giwio yn drefnus heb wthio.
- Wrth fynd i mewn i'r bws, dylai'r disgyblion ddefnyddio'r diheintydd dwylo a ddarperir.
- Rhaid i ddisgyblion eistedd yn y sedd agosaf at gefn y bws sy'n wag pan fyddant yn mynd ymlaen ar y bws ac ni ddylid eistedd yn y seddi blaen o dan unrhyw amgylchiadau. Bydd hyn yn osgoi'r angen i basio disgyblion eraill.
- Wrth adael y cerbydau, dylai'r disgybl agosaf i'r ffrynt adael yn gyntaf a'r disgybl yn y cefn fydd yr olaf i adael.
- Dylai'r disgyblion ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser.
- Dylai disgyblion olchi eu dwylo cyn ac ar ôl pob taith.
- Os oes angen i ddisgybl besychu neu disian yn ystod y daith, dylent:



CATCH IT.
EI DDAL.



BIN IT.
EI DAFLU.



KILL IT.
EI DDIFA.

Mae Uned Trafnidiaeth Integredig Cyngor Sir Penfro yn gwerthfawrogi'r holl gefnogaeth ac ymdrech gan rieni a disgyblion yn ystod yr amseroedd anodd hyn a byddwch yn ymwybodol ein bod bob amser yma i'ch cefnogi.

Felly, ar gyfer unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag ITU y Cyngor ar 01437 776363/01437 775222/01437 775221/01437 776313 neu e-bostiwch school.transport@pembrokeshire.gov.uk